

Trosolwg Aseiniad

Thursday, January 2, 2020 7:18 PM

Enw: Declan James Owens

Rhif Myfyriwr: 1600898

Llwybr: Uwchradd

Teitl yr aseiniad: Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Arwain y Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu?

Linc l'r llyfryn OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1600898_student_uwtsd_ac_uk/EobK9-CNPnBPlv6FUfNmeg0BUvIQJTqaT3CDfey1S-0UoQ?e=FzYLU0

Egwyddor 1- Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.

Saturday, January 4, 2020 8:30 PM



Evidence 1

Tystiolaeth 1

Mae tystiolaeth 1 yn daflen waith cartref cafodd i osod i ddisgyblion blwyddyn 7 ysgol X. Roedd y disgyblion wedi bod yn canolbwyntio ar wahanol fathau o dystiolaeth sydd yn cael ei ddefnyddio yn Hanes. Yn ystod y gwersi cafodd y disgyblion eu cyflwyno i dystiolaeth ysgrifenedig, weledig a ffisegol yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng tystiolaeth gynradd ac eilaidd.



Tabl
Tuduriaid ...

Tystiolaeth 2

Cafodd y dasg yma i gyflwyno i ddisgyblion blwyddyn 8 oedd yn canolbwyntio ar Harri VIII a'i wragedd. Ar ôl cael cyflwyniad i'r hanes cefndirol roedd y dasg yma yn rhoi cyfle i ddisgyblion dangos eu bod nhw yn deall y gwaith a gosod gwybodaeth yn y tabl yma.



Cynllun
Gwes tyst 3

Tystiolaeth 3

Mae'r dystiolaeth yma yna dangos rhan o gynllun wers sydd wedi uwch oleuo oherwydd roedd sesiwn cloi'r wers yma yn cynnwys gweithgaredd oedd yn asesu'r disgyblion fesul grŵp a hefyd yn unigol. Roedd y wers yma yn canolbwyntio ar bosteri propaganda'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y disgyblion wedi cael trafodaethau yn ystod y wers am bwrpas propaganda pwy oedd posteri yn targedu, beth oedd y pwrpas a beth oedd y negeseuon. Roedd y dasg yma yn rhoi cyfle i'r disgyblion i ddehongli posteri gwahanol ac yna ateb y cwestiynau yma cyn symud ymlaen i greu map meddwl ar y topig.

Egwyddor 2 - Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.

Saturday, January 4, 2020 8:31 PM



Year 7 cards

Tystiolaeth 4

Mae'r dystiolaeth uchod yn rhan o adnoddau ar gyfer gwerau blwyddyn 7 oedd yn canolbwyntio ar Gymru cyn 1066. Roedd y disgyblion yn defnyddio'r cardiau yma i fasnachu efo'i gilydd gan ddefnyddio rheolau yr oeddent wedi trefnu yn eu grwpiau cyn y gweithgaredd. Roedd hyn yn rhan o wers oedd yn rhyngweithiol er mwyn meithrin dealltwriaeth y disgyblion ar sut oedd Cymru yn cael i redeg.



Tyst 6

Tystiolaeth 5

Mae'r dystiolaeth yma wedi cymryd allan o fy nyddlyfr dysgu. Mae'r dyfyniad yma wedi ysgrifennu gan yr athro oedd yn arsylwi'r wers ac fel y mae'n bosib gweld wrth y dystiolaeth mae'r ffocws fwyaf ar y brif dasg yn ystod y wers a'r sgiliau trawsgwricwlaidd cafodd i gyflawni. Ffocws y wers yma oedd bywyd yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd 1af.



Propaganda
lesson 3 ...

Tystiolaeth 6

Mae'r dystiolaeth uchod yn dangos tasg ysgrifenedig estynedig chafodd i gyflwyno i ddisgyblion blwyddyn 9 wrth i'r topig o bosteri propaganda ddod i ben. Cafodd y disgyblion eu dysgu am yr hanes yn ogystal â thechneg ateb cwestiwn TGAU gan gymharu atebion da a gwael cyn symud ymlaen i geisio ateb cwestiwn TGAU eu hunain.

Egwyddor 3 -Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.

Saturday, January 4, 2020 8:31 PM



Cards for
the timeline

Tystiolaeth 7

Mae'r dystiolaeth yma yn rhan o adnoddau gwrs blwyddyn 7 wrth iddyn nhw astudio Cymru cyn 1066. Roedd y disgyblion wedi cae 2 wers yn astudio hanes Cymru cyn 1066 o fewn wythnos. Ar wers ar y bore ddydd llun oedd yn dilyn gofynnwyd i ddisgyblion dod i lan yn ei thro i osod y cardiau yma ar y bwrdd yn nhrefn gronolegol.



Propaganda
posters



Propaganda
lesson 2

Tystiolaeth 8

Mae'r dystiolaeth yma yn dangos 3 wers blwyddyn 9 cafodd i ddysgu iddynt dra o'n i ar leoliad yn ysgol X. Mae'r tair gwrs yma wedi cynllunio a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb. Roedd y gwrsi yma yn adeiladu ar ddealltwriaeth yn raddol.



Mynachlog
ydd

Tystiolaeth 9

Dwy wers chafodd i baratoi ar gyfer dosbarth blwyddyn 8 yn ysgol X ydy'r dystiolaeth yma. Unwaith eto chafodd y gwrsi yma i baratoi a'i chynllunio er mwyn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb. Hyd yn oed gyda'r wers gyntaf ar y mynachlogydd, rhaid i'r disgyblion adeiladau ar eu gwybodaeth o'r gwrsi blaenorol a chysylltu'r gwaith yma gyda'r gwaith blaenorol ar y Tuduriaid.

Cyflwyniad

Yn yr aseiniad yma byddaf yn trafod ac yn gwerthuso yn feirniadol tair egwyddor bedagogaid, tair egwyddor sydd wedi profi yn egwyddorion cryf a hanfodol yn ystod fy nghyfnod ar brofiad addysgu. Byddaf yn cynnwys tystiolaeth sydd yn gysylltiedig gyda'r profiad addysgu sydd yn dangos yr egwyddorion yma yn cael eu gweithredu yn ystod fy mhrofiad dysgu yn Ysgol X. Mae Donaldson (2015) yn cyflwyno 4 diben sydd yn angenrheidiol yn ei farn ef ar gyfer y cwriclewm newydd sydd yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd. Yn ystod fy mhrofiad yn ysgol X wnes i gadw'r dibenion yma yn agos iawn wrth i mi gynllunio er mwyn sicrhau fod y dysgu ac addysgu yn greadigol, yn heriol ac yn hybu disgyblion i weithio i gorau eu gallu. Wrth ystyried y penderfynnu canolbwyntio arno yn yr aseiniad yma yn plethu i mewn gyda'r dibenion yma ac mae'r dystiolaeth sydd wedi cynnwys yn cefnogi'r awgrymiad yma. Yr egwyddorion bydd yn cael eu trafod yn yr aseiniad yma ydy: Asesu ar gyfer dysgu, Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a Chysylltu â dysgu blaenorol. Wrth ystyried y tair elfen yma teimlaf fod y ddwy egwyddor gyntaf sef, Asesu ar gyfer dysgu a chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn egwyddorion sydd yn gryf ar draws y maes dysgu ac addysgu. Yn fy marn i mae asesu ar gyfer dysgu yn egwyddor sydd yn hanfodol i waith addysgwyr er mwyn sicrhau datblygiad a chynnydd i'r disgyblion. Yn cyfeirio yn ôl at waith yr Athro Donaldson teimlaf fod cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd wedi profi yn elfen bwysig sydd yn ddefnyddiol iawn yn ystod gwersi ac fe wnes i geisio ymarfer yr egwyddor yma yn ystod fy mhrofiad. Mae cysylltu gyda gwersi blaenorol yn egwyddor sydd wedi profi yn egwyddor flaenllaw yn ystod fy nghynllunio ac addysgu i yn bersonol yn ystod fy nghyfnod yn ysgol X. Teimlaf fod hanes sef fy mhwnic rydw i yn dysgu yn bwnc lle mae angen cysylltu gwaith gyda gwersi blaenorol ac adeiladu ar y profiad yma.

Trafodaeth Llenyddiaeth

Asesu ar gyfer dysgu

Yn gyntaf byddaf gyfeirio at awgrymiadau sydd ar gael yn llenyddiaeth sydd yn canolbwyntio ar asesu ar gyfer dysgu, sef un o'r egwyddorion wnes i gategoreiddio yn hanfodol, ac fel mae Petty (2004) yn esbonio mae asesu yn gwasanaethu sawl pwrpas gwahanol. Wrth ystyried asesu ar gyfer dysgu mae Robinson (2015) yn gwneud cymhariaeth ddiddorol iawn wrth iddo gymharu gwaith athrawon gyda gwaith garddwyr, gan awgrymu fod disgyblion fel planhigion yn tyfu yn naturiol ond gwaith pwysig garddwyr ac athrawon ydy meithrin eu disgyblion a'i phlanhigion. Serch hyn rhaid cofio mai hybu a meithrin dealltwriaeth a gwybodaeth ydy gwaith yr athro ac asesu sut mae'r disgyblion yn deall topig orau, sut maent yn dysgu/addysgu orau ac yna asesu dealltwriaeth y disgyblion maent yn ceisio meithrin. Dyma un o'r elfennau pwysicaf sydd rhaid ystyried wrth ystyried asesu ar gyfer dysgu oherwydd nid disgyblion yn unig sydd yn elwa wrth hyn, mae asesu faint mae disgyblion yn deall ac yn amsugno yn cael effaith parhaol ar y ffordd mae athro yn strwythuro a chynllunio eu gwersi er mwyn sicrhau cynnydd a datblygiad disgyblion a'r ffordd maen nhw yn addysgu. Mae gwaith Bartlett (2015) yn cefnogi pwysigrwydd asesu ar gyfer dysgu wrth iddi honni fod asesu ar gyfer dysgu nid yn unig yn rhan annatod o addysgu rhagorol yn ogystal â datblygu dysgu rhagorol. Nid Bartlett (2015) yn unig sydd yn awgrymu'r barn yma, mae Black et al. (2003) hefyd yn gefnogol o'r hyn mae Bartlett (2015) yn i ddweud. Ar ôl cymharu'r hyn mae Bartlett a Black et al yn i

ddweud rwyf yn dychmygu asesu ar gyfer dysgu fel cylchred dysgu ac addysgu lle mae asesu dealltwriaeth y plant yn effeithio ar y ffordd mae'r athro yn addysgu, felly fel mae Black et al. (2003) yn honni fod asesu ar gyfer dysgu yn achosi gwelliant mewn dysgu'r plant a'r ffordd mae'r plant yn cael eu haddysgu. Yn cyfeirio yn benodol at fy mhwn personol i mae Hadyn et al. (2002) yn cyfeirio'n benodol at asesu yn amgylchiadau dosbarth hanes mewn ysgol uwchradd. Y farn gyffredinol sydd rhwng y llyfr yma a'r hyn mae Bartlett (2015) a Black et al. (2003) yn i ddweud yw bod asesu ar gyfer dysgu yn holl bwysig ond hefyd y mae'r adborth sydd yn cael eu rhoi wrth yr athro dosbarth i'r disgyblion hefyd yn rhan bwysig o'r broses er mwyn gwella dealltwriaeth disgyblion. Mae'n bosib defnyddio'r egwyddor yma a'r hyn rydw i wedi trafod yn y rhan yma, i gysylltu pwysigrwydd asesu ar gyfer dysgu gyda un o awgrymiadau'r Athro Donaldson. Mae Donaldson (2015) yn nodi dylai disgyblion fod yn "ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes", ac felly mae asesu ar gyfer dysgu yn egwyddor yn fy marn i fydd yn galluogi disgyblion y dyfodol i gyflawni hyn.

Cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd

Yn ail rwyf am symud ymlaen i drafod yr egwyddor sef cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, a pa mor hanfodol y mae ystyried yr egwyddor yma wrth i athrawon cynllunio gwersi. Rhaid pwysleisio pwysigrwydd yr egwyddor yma wrth ystyried disgyblion y dyfodol a'r newidiadau sydd yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd yn y cwricwlwm yn dilyn adolygiad yr athro Donaldson. Felly, y lle gorau i ddechrau wrth ystyried cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ydy gwaith Donaldson (2015) lle mae'r Athro Donaldson yn awgrymu gwelliannau i'r cwricwlwm sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Mae Donaldson (2015) yn awgrymu cwricwlwm sydd yn bodoli nid i wahaniaethu'r cynradd ac uwchradd ond un cwricwlwm sydd yn bodoli dros y cyfan. Er mwyn gallu gweithredu hyn mae Donaldson (2015) yn awgrymu bod y pynciau fel i ni yn i nabod nhw heddiw yn cael ei chywasgu i greu beth mae ef yn nodi fel **"Chwe Maes Dysgu a Phrofiad"**(tud.5). Mae'r chwe maes yma yn cael eu rhannu i mewn i'r canlynol: **"Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Dyniaethau, Ieithoedd-Llythrennedd a chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd & Gwyddoniaeth a Thechnoleg"**(tud.5). Yn ogystal ag arbenigo yn faes penodol fel athro ysgol uwchradd mae Donaldson (2015) hefyd yn awgrymu y dylai pob athro fod yn gyfrifol am dri sgil benodol sydd yn gyfrifoldeb ar bob athro i integreiddio yn ystod gwersi. Y cyfrifoldebau yma ydy **"Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol"** (tud.6), ac mae Donaldson (2015) yn nodi y dylai safon y cymhwysedd digidol i fod o safon uchel a hefyd mae'n ddisgwyliedig fod mwy na gallu syml yn llythrennedd a rhifedd y dylai cael ei gynnwys yn y gwersi. Mae'r newidiadau yma yn allweddol yn ôl Donaldson (2015) ar gyfer dysgwyr y dyfodol ac er mwyn meithrin dysgwyr sydd yn cyrraedd y pedwar nod mae ef yn awgrymu, sef:

- 1) **"Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog."**
- 2) **"Yn gyfranwyr mentrus, creadigol."**
- 3 **"Yn Unigolion iach, hyderus."**
- 4) **"Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus."** (tud.4)

Mewn cymhariaeth gyda gwaith yr athro Donaldson mae Rowley et al (2009) yn cydymdeimlo gyda rhai problemau all godi wrth ddodi gormod o bwysau ar gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Yn wir mae Rowley et al (2009) hefyd yn clodfori manteision defnyddio dulliau trawsgwricwlaidd hefyd, yn y llenyddiaeth mae enghraifft ddiddorol o'r defnydd o ddefnyddio lluniau a dulliau celf i helpu disgyblion i ddysgu cerddi. Yn ogystal â hyn mae Rowley et al (2009) hefyd yn sôn am astudiaeth fwy dwfn o bwnc hanesyddol wrth gysylltu sgiliau iaith a TGCH. Fodd bynnag mae Rowley et al (2009) yn cydnabod fod gwendidau wrth wneud hyn er enghraifft a'i chyfrifoldeb yr athro dosbarth, yr adran, neu'r ysgol gyfan ydyw i wneud y cysylltiadau trawsgwricwlaidd? Ac fel gwnes i sôn ynghynt mae Donaldson (2015)

yn honni fod gan bob athro cyfrifoldeb yma ond er hynny mae Rowley et al (2009) yn codi pwynt pwysig iawn i'r ffaith bod rhaid sicrhau fod rhaid i'r unigolyn yna gwneud y cysylltiadau cywir er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ymateb positif a chadarnhaol eu disgyblion.

Cysylltu a dysgu blaenorol

Mae Capel et al (2005) yn honni fod gan bob athro technegau a strategaethau dysgu sydd yn amrywiol ac yn bersonol i'w personoliaeth unigryw nhw. Fodd bynnag wrth ystyried yr egwyddorion gwahanol a'r strategaethau oedd yn gweithio yn gorau i mi yn ystod fy nghyfnod ar leoliad yn ysgol X, teimlaf fod cysylltu gwersi gyda dysgu blaenorol yn egwyddor flaenllaw. Wrth ystyried ymateb y disgyblion yn ysgol X i'r strategaethau, technegau a'r egwyddorion wnes i arbrofi, teimlaf fod yr ymateb gorau wedi bod wrth i ddisgyblion ail-gydio yn wersi blaenorol. Yn debyg mae Donaldson (2015) yn honni fod dysgu plant yn rhywbeth dylai ddigwydd yn barhaus ac felly mae cysylltu dysgu gyda dysgu blaenorol yn rhywbeth dylai ddilyn yn ein hysgolion heddiw ac yn egwyddor dylai cael ei throsglwyddo i ddisgyblion ac athrawon y dyfodol. Yn yr un ffordd mae Marzano (2004) o farn debyg i Donaldson (2015). Mae Marzano (2004) yn awgrymu fod athrawon o bynciau amrywiol yn disgwyl gormod o'r disgyblion amser maent yn cyrraedd yr ysgol uwchradd ym mis medi. Mewn ambell i sefyllfa mae athrawon yn cymryd y wybodaeth gefndirol sydd gan ddisgyblion yn ganiataol ac felly yn dilyn y disgyblion i lawr i'r llwybr anghywir. Ac mae Marzano (2004) yn awgrymu fod hyn yn cael effaith ar y ffordd mae disgyblion yn dysgu a bod adeiladu ar ddysgu blaenorol yn holl bwysig. Mae Donaldson (2015) yn nodi un gair sydd yn allweddol wrth ystyried yr egwyddor yma, y gair 'cynnydd'. A dyma un o'r pethau mae'r Athro Donaldson am sicrhau fwyaf i ddisgyblion y dyfodol ei bod nhw yn cynyddu ac yn aeddfedu i mewn i bobl alluog a wybodus ac felly mae'r egwyddor yma yn rhoi cyfle i ddisgyblion adeiladu ar wybodaeth flaenorol ac ehangu'r wybodaeth yma yn wreiddiol. Ymhellach mae Downey et al (2016) yn gefnogol o'r farn sydd yn rhedeg trwy gydol y rhan yma ac yn gefnogol o'r ffaith bod adeiladu ar brofiad a dysgu ymhellach o wersi blaenorol yn elfen bwysig o addysgu plant. Mae Downey et al (2016) yn honni fod crynhoi gwybodaeth a deall topig penodol yn broses dylai'r dysgwyr gwneud yn barhaus ac mae'r broses yn broses parhaol felly mae'r egwyddor yma yn cefnogi fod yr egwyddor yma yn meithrin disgyblion.

Adfyfrio Beirniadol

Egwyddor 1

Wrth ystyried yr egwyddor yma mae asesu ar gyfer dysgu wedi profi yn egwyddor bwysig iawn yn ystod fy mhrofiad yn ysgol X. Wrth ystyried y gwahanol dystiolaeth rydw i wedi llwytho i'r adran yma gadewch i mi ddechrau gyda Thystiolaeth 1. Roedd y dasg cafodd i osod i'r disgyblion blwyddyn saith wedi cael ymateb positif iawn yn yr ystyr fod pob un o'r disgyblion wedi rhoi cynnig ar ateb y daflen waith. Wrth i mi asesu'r atebion cafodd eu nodi yng ngwaith y disgyblion ac adfyfrio yn feirniadol credaf byddai'r dasg efallai yn fwy addas ar gyfer tasg dosbarth. Y rheswm rwyf yn awgrymu hyn ydy, oherwydd bod rhai disgyblion heb ddeall yn iawn y gwahaniaethau rhwng tystiolaeth gynradd ac eilaidd ac felly pe bai'r gweithgaredd yma wedi digwydd o fewn y dosbarth efallai bydde cyfle i gael fwy o drafodaeth a mynd dros yr atebion cyn symud ymlaen i ganolbwyntio ar dopig newydd. Gyda thystiolaeth 2 roedd hi'n amlwg fod y disgyblion yn deall y gwaith ac yn medru gwahaniaethu gwragedd Harri VIII a chysylltu'r wybodaeth gywir gyda'r wraig gywir. Wrth asesu'r dasg yma roedd hi'n amlwg fod y disgyblion wedi deall yr hanes a'r wybodaeth, wedi deall y dasg yn glir a hefyd yn barod i symud ymlaen i'r topig nesaf. Yn ogystal â hyn roedd y dasg yn galluogi mi i adnabod fod strwythur y wers yma wedi gweithio ac felly yn galluogi mi i addasu'r gwersi nesaf ar gyfer y disgyblion

yma. Roedd tystiolaeth 3 yn rhoi cyfle i'r dosbarth cyfan gymryd rhan ac yn galluogi mi i asesu'r dosbarth cyfan o fewn wers. Roedd cyfle gan y disgyblion nodi atebion ar bapur mewn grwpiau ac yn unigol, ond ogystal â hyn gofynnwyd cwestiynau i ddisgyblion yn ystod y sesiwn a chafodd y disgyblion i ddewis gen i ar hap. Eto roedd ymateb cadarnhaol i'r dasg yma ac felly profwyd fel yn dystiolaeth 2 pa mor bwysig ydy asesu ar gyfer dysgu sydd yn cefnogi yr hyn gwnes i gyfeirio wrth drafod y llenyddiaeth ynghynt.

Egwyddor 2

Mae'r cardiau sydd yn cael ei gynnwys fel rhan o dystiolaeth 4 yn rhan hanfodol o wers ryngweithiol blwyddyn 7. Nid oedd unrhyw dasg ysgrifenedig yn ystod y wers yma, dim ond sicrhau fod y disgyblion yn deall y gwaith yr oeddent yn canolbwyntio arno oedd nod y wers yma. Roedd rhaid i'r disgyblion cynllunio rheolau ac yna mynd o amgylch y dosbarth yn siarad a masnachu gyda'i chyfoedion. Y sgiliau oedd yn cael i feithrin yn ystod y wers yma oedd sgiliau rhifedd wrth i ddisgyblion masnachu a cheisio elwa ac ennill arian a nwyddau yn lle i golli, a hefyd sgiliau llythrennedd wrth i sgiliau cyfathrebu cael i ymarfer. Wrth adfyfrio ar y wers yma roedd y dasg yma yn llwyddiannus ac yn addas iawn ar gyfer y dosbarth yma, serch hynny teimlaf bydde dasg ysgrifenedig yn ychwanegol yn ddefnyddiol hefyd er mwyn ymestyn yr elfen llythrennedd cam ymhellach. Yn debyg i dystiolaeth 4 mae fy nheimpladau yn debyg iawn hefyd, ynglŷn â'r wers lle cafodd tystiolaeth 5 i ysgrifennu amdano. Fel mae'r athro yn nodi mae sawl sgil yn cael ei ymarfer yn ystod y wers yma megis sgiliau meddwl, datrys problemau, gweithio mewn grŵp a llenyddiaeth. Roedd y wers yma yn llwyddiannus ond teimlaf dyle mwy wedi cael i ysgrifennu yn y wers yma, ond serch hynny cafodd nifer fawr o sgiliau trawsgwricwlaidd i fewnbwnni i'r wers yma felly efallai nid oedd gwaith ysgrifennu estynedig yn angenrheidiol. Mae tystiolaeth 6 yn rhoi enghraifft o dasg ysgrifenedig estynedig ar gyfer disgyblion blwyddyn 9 oedd wedi cynllunio i ymestyn sgiliau llythrennedd a darllen y disgyblion. Serch hyn nid oedd y dosbarth wedi ymateb cystal â beth oeddwn i yn disgwyl ac felly teimlaf byddai'r dasg yma yn well ar gyfer dosbarthiadau sydd a gallu gwell. Yn ogystal â hyn ac yn cyfeirio yn ôl i waith Rowley et al (2009) rwyf yn credu fod llythrennedd, ysgrifennu a darllen yn elfennau cryf mewn pwnc megis hanes ac felly mae'r dewis o'r tasgau yma yn addas. Serch hyn rwyf yn ymwybodol fod diffyg sgiliau rhifedd a chymwysterau digidol ac felly mae'r rhain yn sgiliau sydd angen gweithio arnynt.

Egwyddor 3

Mae tystiolaeth 7-9 i gyd er mwyn adeiladu ar egwyddor 3 a pha mor bwysig y mae'r egwyddor yma wedi profi yn ystod fy mhrofiad yn ysgol X. Fel gwnes i sôn ynghynt am Donaldson (2015) mae cynnydd disgyblion yn holl bwysig ac yn rhywbeth dylai ddigwydd yn barhaus ac yn raddol felly y mae'r dasg sydd wedi cynnwys yn dystiolaeth 7 yn dangos gweithgaredd lle'r oedd gofyn i'r disgyblion adeiladu ar waith o'r wers flaenorol a defnyddio'r wybodaeth i osod yr hanes mewn trefn gronolegol cyn symud ymlaen i'r topig nesaf. Mae tystiolaeth 8 a 9 yn dangos cyfres o wersi lle'r oedd rhaid i ddisgyblion defnyddio gwybodaeth o'r gwersi ac yna adeiladu ar y wybodaeth yma. Roedd y tasgu cafodd i gyflwyno yn ystod y gwersi yma wedi cynllunio i sicrhau cynnydd parhaus a graddol ac felly yn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion cam ymhellach ar ôl bob tasg. Mae'r gwersi yma yn dangos patrwm clir a pharhaus o'r defnydd o egwyddor 3, mae cyfle gan y disgyblion adeiladau ar brofiadau blaenorol, adeiladu ar wybodaeth o wersi blaenorol ac ennyn ei ddiddordeb. Teimlaf fod yr egwyddor yma wedi bod yn strwythur ac yn dechneg ddefnyddiol iawn yn ystod fy nghyfnod yn ysgol X. Yn y gwersi cyntaf wnes i ddysgu nid oedd y strwythur o gysylltu gwersi gyda'i gilydd yn cael ei ddefnyddio ond wrth ddatblygu a chynyddu gwelwyd fod gwneud y cysylltiadau yma a galluogi disgyblion i

adeiladu ar eu gwybodaeth yn ddefnyddiol iawn ac yn gwella eu cynnydd nhw yn ogystal.

Datblygiad Pellach

Er mwyn parhau i wneud cynnydd teimlaf fod sawl maes gen i fydd yn galluogi mi i wneud hyn. Wrth ystyried asesu ar gyfer dysgu teimlaf fod lle i gynyddu ymhellach wrth ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau gwahanol er mwyn asesu ar gyfer dysgu. Wrth ystyried pedwar diben Donaldson yma bydd hyn yn galluogi mi i feithrin disgyblion mentrus a hefyd disgyblion uchelgeisiol oherwydd bydd yr amrywiaeth o dechnegau megis nodi 3 peth mae'r disgyblion wedi dysgu, 2 peth oedd yn ddiddorol iddynt a 1 cwestiwn sydd ganddynt. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw fynegi dealltwriaeth yn ogystal â diddordeb personol. Rwyf yn ymwybodol fod lle i gynyddu yn sylweddol wrth ystyried egwyddor 2 a chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Mae Donaldson (2015) yn dodi pwyslais mawr ar sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol felly er mwyn meithrin disgyblion sydd yn llwyddiannus yn y dyfodol rhaid i mi geisio datrys ffordd i ychwanegu mwy o sgiliau digidol a rhifedd i mewn i wersi yn y dyfodol. Teimlaf fod sgiliau llythrennedd yn elfen eithaf cryf yn rhan fwyaf o fy ngwersi ac felly rhaid parhau i hybu'r sgil yma. Er mwyn datrys ffordd o gynnwys y sgiliau eraill rhaid i mi arsylwi athrawon ysgol x er mwyn cael syniadau a dod i'r syniadau yma ar waith yn fy nghynllunio a'n gwersi i. Gydag egwyddor 3 rwyf yn teimlo fod hi'n bosib i mi barhau a chynllunio gwersi a gweithgareddau sydd yn datblygu disgyblion wrth adeiladu ar eu profiadau blaenorol ac adeiladu ar hyn. Rwyf yn ymwybodol fod modd i mi ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, strategaethau a gweithgareddau gwahanol i wneud hyn a byddaf yn ceisio gwneud hyn mewn modd mor greadigol â phosibl. Fel gwnes i esbonio ynghynt rwyf yn teimlo fod hyn yn bwysig er mwyn meithrin dealltwriaeth mewn hanes ac i roi hyder i ddisgyblion yn y pwnc.

Llyfrau

Bartlett, J. (2015) *Outstanding Assessment for Learning in the Classroom*, Llundain: Routledge. p. xiii.
Black, P, Harrison, C, Lee, C, Marshall, B, William, D. (2003) *Assessment for Learning: Putting it into Practice*, Berkshire: Open University Press. p. 7.
Capel, S, Leask, M, Turner, T. (2005) *Learning to Teach in the Secondary School*, Pedwerydd Argraffiad, Oxon: Routledge. P.276.
Downey, M.T, Long, K.A. (2016) *Teaching For History Literacy- Building Knowledge in the History Classroom*, Efrog Newydd: Routledge. p.5.
Haydn, T, Arthur, J, Hunt, M. (2002) *Learning to Teach History in the Secondary School*, Llundain: RoutledgeFalmer. P.227.
Marzano, R.J. (2004) *Building Background Knowledge for Academic Achievement*, UDA: Cover art. p.1.
Robinson, K. (2015) *Creative Schools*, UDA: Viking Penguin. P.102.
Rowley, C, Cooper, H. (2009) *Cross-Curricular Approaches to Teaching and Learning*, Llundain: SAGE Publications Ltd. p.2.

Llyfrau Electronig

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*: Hawlfraint y Goron, ar gael:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf> (Darllenwyd 23/12/19). P.4, 5, 6 a 7.

Darllen Cefndirol

Dweck, C. (2012) *Mindset*, Llundain: Robinson
Hattie, J. (2009) *Visible Learning: A Synthesis of over 800 Meta-Analyses Related to Achievement*, Oxon: Routledge.
Petty, G. (2004) *Teaching Today*, Trydydd Argraffiad, Cheltenham: Nelson Thornes Ltd.